


# Opening Doors

## The Charter for SME Friendly Procurement

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.



# Foreword

**99% of all Welsh businesses are Small and Medium Enterprises (SMEs) and the Welsh Assembly Government recognises and appreciates the very important contribution they make not only to the development of a healthy economy in Wales but to our communities and the environment upon which we all depend. Our aim is to nurture them, and further develop their role in fostering economic, environmental and social benefits across Wales.**

Despite being able to offer good business opportunities, I am aware that many SMEs are apprehensive about engaging with the public sector, due to both real and perceived barriers. The following Charter clearly sets out our commitment to changing the way we do business in Wales and also seeks your support in helping to create a fair and open environment in which we can all do business together.

The Business Procurement Task Force, which I chair, is not only anxious to ensure that these barriers are lowered or removed, but also wishes to dispel some of the myths surrounding procurement in the public sector.

*"Opening Doors: the Charter for SME Friendly Procurement"* has been produced through Value Wales. This Charter is part of a programme of actions to deliver a consistent approach to procurement across the public sector in Wales while at the same time, addressing issues of particular concern to SMEs.

By asking the public sector in Wales to adopt and implement this Charter, I am also sending out a clear signal that we all have an important role in creating a sustainable future for Wales. My challenge to both SMEs and the Welsh public sector is to grasp this opportunity now, so that by opening the right doors, we collectively build a healthier business sector in Wales.

We are all on a long journey of change in public sector procurement methods and optimising work opportunities, and this is another important step on that journey.

**Andrew Davies AM,**
**Minister for Economic Development and Transport.**

**For further guidance on this Charter, please contact the Value Wales helpdesk:**

**Telephone:** 01792 313068
**Fax:** 01792 313076
**E-mail:** VWPswansea@wales.gsi.gov.uk

# Endorsements

"Welsh local government has long recognised the community benefits that may be achieved through the effective use of procurement processes and engagement with SMEs. The development of this charter is another step in the right direction, building on the good practice that already exists in many areas and introducing challenges for improvement across the public sector in Wales.

I commend "*Opening Doors*" as part of the public sector procurement improvement programme directed not just at achieving value for money through the public purse, but also delivering social, environmental and economic benefits to our communities. I also recommend our guidance on 'Public Spending for Public Benefit', which provides case studies of how the principles outlined in "*Opening Doors*" can be implemented in practice."

**Councillor Russell Roberts**
**WLGA Spokesperson, Improvement & Procurement**

"The FSB welcomes this unique charter and is pleased to have had an opportunity to take part in its formulation. Engaging in public procurement is often a daunting task for SMEs, but we hope that this document will go some way to bringing clarity to the process and that it acts as a guide for businesses during the procurement process.

It is essential that we match the value for money sought by the public sector with the quality of service and the products offered by businesses in Wales, and we feel that with this charter, that will be better facilitated."

**Ben Cottam**
**Welsh Policy Development Officer, Federation of Small Businesses in Wales**

"The CBI is pleased to endorse this Charter, and to have contributed to its formulation. Public sector procurement plays a key role in driving efficiencies, growing the economy of Wales, and securing sustainable businesses.

This Charter will be a valuable tool for companies trying to negotiate the often tricky minefield of procurement procedures, providing clear guidance and support for SMEs. In so doing it will help put in place the conditions which allow business to grow and prosper to the benefit of all."

**Emma Watkins**
**Head of Policy, CBI Wales**

"The Wales Audit Office welcomes any approach which leads to better value for money from the use of public funds. We hope that the Charter will secure these benefits by encouraging more Welsh SMEs to seek to supply services to the Welsh public sector and thereby increase levels of competition."

**Jeremy Colman**
**Auditor General for Wales**

"Value Wales is all about bringing the Welsh public sector together and using our collective influence to make a real difference. I welcome this Charter, which will make it possible for SMEs to play a tangible role in the exciting changes taking place in public services across Wales."

**Emma Holiday**
**Acting CEO Value Wales**





# Introduction

**There are over 100 individual public sector organisations in Wales, including the Welsh Assembly and its sponsored bodies, local authorities, higher and further education, the national health service, emergency services etc. Details of the public sector organisations can be found in the resources section on the sell2wales Website – www.sell2wales.co.uk**

The public sector in Wales spends some £4 billion each year on procurement. Research indicates that 35 per cent of this spend is won by businesses in Wales, supporting approximately 70,000 jobs. For every one per cent increase in spending within Wales, a further 2,000 jobs could be created.

Business Support Agencies in Wales are there to help SMEs adapt to meet the special requirements of the public sector, changes in procurement methods and ultimately win more business. SMEs requiring support can in the first instance contact **Business Eye** on **08457 969798** or visit **www.businesseye.org.uk** where staff will provide information on where the appropriate assistance can be obtained.

Procurement is changing and it is important that SMEs and the public sector understand each other's processes and expectations. This Charter aims to set a minimum level of good practice for both sides.

**THE FOLLOWING ARE THE MAIN PRINCIPLES ON WHICH OUR COMMITMENT TO SME FRIENDLY PROCUREMENT IS BASED**

## THE PUBLIC SECTOR'S COMMITMENT TO SMEs

**We welcome the opportunity to do business with SMEs and will:**

- Become more familiar with the SMEs in our region, and the services provided.
- Take steps to find out what the barriers are to us doing business with appropriate SMEs, and seek to remove or lower them.
- Not assume that larger suppliers always offer better value for money.
- Publish guidance, including on-line documents, and brief SMEs on our requirements, the opportunities we have available, who to contact, and how to tender for our business.
- Make it easier for SMEs to talk to us.
- Ensure all our processes create a level playing field for SMEs.
- Look for the best overall outcomes from our procurement activities using broad value for money criteria to make decisions.
- Ensure genuine and fair competition that does not discriminate against SMEs.
- More widely advertise our contracts over £25,000 in value, making best use of the National Procurement Website – **sell2wales.co.uk.**
- Welcome applications from new businesses.
- Actively encourage our main suppliers to provide opportunities for SMEs to deliver elements of appropriate contracts.
- Welcome bids from small businesses that are collaborative or are on a consortia basis.
- Comply with all applicable EU and UK procurement legislation, in particular the principle of non-discrimination, and apply the rules to all tenderers in a fair and transparent manner.

**We are totally committed to sustainable development and therefore will:**

- Put our sign up to Sustainable Procurement into practice by joining the Value Wales Sustainable Procurement Programme and continually monitor our progress.
- Use sustainable development criteria in determining value for money, including assessing the impact of economic, environmental and social factors.
- Encourage SMEs also to embrace sustainable development.

**We are modernising our procurement processes, to ensure that they are transparent and fair for all SMEs. To achieve this, we will:**

- Ensure skilled and professionally qualified personnel manage the processes.
- Keep our tendering process as simple as possible to minimise cost.
- Look at the whole life cost, and not just the initial cost of the product / service when considering value for money.
- Explain our procurement processes to SMEs and how they are influenced by the need to comply with the EU and UK procurement law.
- Give SMEs sufficient notice about changes in our processes to allow time to adapt.
- Cut down on administration needed to tender, simplify our documents, provide clear briefs that identify all of our requirements, and use plain language.
- Move towards a consistent all-Wales approach to pre-qualification and standardised contract documentation.
- Adopt e-procurement including e-auctions, procurement cards and electronic invoicing, in order to improve efficiency.
- Consider the most appropriate approach to achieve value for money and manage risk, for each procurement.
- Package large contracts into separate elements or make use of regional lots if appropriate, to ensure that SMEs are not excluded from tendering.
- Give potential SME suppliers an opportunity to discuss the procurement, in order to understand our requirements and assess their own suitability.
- Inform SMEs of the criteria we use to evaluate applications to tender and tenders.
- Decide what our financial qualification requirements are on a tender-by-tender basis, having assessed the risks involved.
- Not ask for more than two years audited accounts, and accept alternative information from newer businesses.
- Use outcome specifications and consider alternative products or services SMEs may wish to offer.
- Offer feedback to successful and unsuccessful tenderers, to help SMEs improve.
- Treat all SMEs fairly, and pay within 30 days from receipt of a correct invoice.

**To make sure our procurement processes continuously improve, we will:**

- Adopt good practice procurement guidance and standard tender templates developed by Value Wales.
- Ask SMEs to help us, by providing feedback on our processes and procedures, and suggest innovative solutions.
- Publish and implement a complaints and continuous improvement procedure.



* This is a summary of the practices, which we will aim to adopt. In order to preserve flexibility and encourage the widest possible take-up across public sector bodies and SMEs, it is necessary for us to make clear that this document does not create, and is not intended to create, any binding legal relationship, obligation or right of action whatsoever whether in public or private law, in relation to any public sector body or SME which participates in this Charter.

## THE FOLLOWING ARE THE MAIN PRINCIPLES ON WHICH YOUR COMMITMENT TO SME FRIENDLY PROCUREMENT IS BASED

# SMEs COMMITMENT TO THE PUBLIC SECTOR

**In order to help us help you do business with us, you will be prepared to:**

- Register on the National Procurement Website – www.sell2wales.co.uk.
- Provide further information we may need to understand your business.
- Take advantage of the opportunities we offer for you to meet with us.
- Ensure that you know what is required of you to meet our requirements, and if you do not know, seek advice.
- Contact public sector organisations to ask them to include you on their relevant list of approved suppliers. This is particularly important if you are interested in work below £25,000 in value.
- Actively seek tender opportunities, including via www.sell2wales.co.uk.
- Be realistic in assessing your own capability to deliver each contract.
- Take up e-procurement, and as a minimum become Internet capable, to make sure you are not disadvantaged.
- Ensure all activities are conducted in an honest and responsible way.
- Continuously improve your business' contribution to sustainable development.
- Develop and work with your supply chains to include other SMEs.
- Treat your suppliers fairly, and pay within 30 days from receipt of a correct invoice.

**You will have a reputation for, and will want to provide us with a high quality competitive service, by:**

- Continuously updating personnel skills and your business' capability, seeking assistance from Business Support Agencies, if appropriate.
- Consider collaborating with other suppliers, if this makes your service more competitive or reduces risk.


## Acknowledgement

**Value Wales is pleased to acknowledge that it has drawn upon other publications listed below, to supplement its own research to produce this Charter.**

- Small Business Friendly Concordat – Good Practice Guide (Office of the Deputy Prime Minister).
- Smaller Supplier….. better value? (Office of Government Commerce).
- The Government Procurement Code of Good Practice (Office of Government Commerce).
- Public Procurement – removing the barriers to SMEs (Department of Finance and Personnel, Northern Ireland).
- An Action Plan – Small Businesses and Public Procurement (Federation of Small Businesses).
- Local Government Procurement, Economic Development – An Action Guide (Chief Economic Development Officers Society).
- Government Supporter and Customer? May 2003 – Better Regulation Task Force.
- Public Spending for Public Benefit, July 2005 – New Economics Foundation and Welsh Local Government Association.

The above publications, together with the Value Wales documents listed below, will provide further useful and more detailed guidance to purchasers and suppliers.

- 'Buying Into SD' and 'Buy Now Don't Pay Later' – guides to sustainable procurement – Value Wales.
- 'Food for Thought' – guidance and case studies – Value Wales.




# Agor Drysau

Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n gyfeillgar
i fusnesau bach a chanolig

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



# Rhagair

**Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) yw 99% o holl fusnesau Cymru, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad hollbwysig nid yn unig i ddatblygiad economi iach yng Nghymru ond i'n cymunedau ac i'r amgylchedd yr ydym i gyd yn dibynnu arno. Ein nod yw eu meithrin, a datblygu eu rôl o goleddu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru ymhellach.**

Er y gallant gynnig cyfleoedd busnes da, rwy'n ymwybodol bod nifer o fusnesau bach a chanolig yn bryderus ynghylch ymwneud â'r sector cyhoeddus, oherwydd rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig. Mae'r Siarter ganlynol yn esbonio'n glir ein hymrwymiad i newid y ffordd yr ydym yn gwneud busnes yng Nghymru, ac yn gofyn am eich cymorth i greu amgylchedd teg ac agored lle gall pob un ohonom wneud busnes gyda'n gilydd.

Mae'r Tasglu Caffael Busnes, yr wyf yn gadeirydd arno, yn awyddus i sicrhau bod y rhwystrau hyn yn cael eu lleihau neu eu dileu, ond rydym hefyd am chwalu rhai o'r mythau ynghylch caffael yn y sector cyhoeddus.

Cynhyrchwyd "Agor Drysau: y Siarter ar gyfer Caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig" drwy Gwerth Cymru. Mae'r Siarter yn rhan o raglen o weithredu a fydd yn creu agwedd gyson at gaffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan fynd i'r afael â materion sydd o ddiddordeb arbennig i fusnesau bach a chanolig ar yr un pryd.

Drwy ofyn i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu a gweithredu'r Siarter hon, rwyf hefyd yn dangos yn glir bod gan bob un ohonom rôl bwysig i'w chwarae wrth greu dyfodol cynaliadwy i Gymru. Fy her i fusnesau bach a chanolig a'r sector cyhoeddus yng Nghymru yw cydiwch yn y cyfle hwn nawr, a thrwy agor y drysau cywir, byddwn yn cyd-adeiladu sector busnes iachach yng Nghymru.

Rydym i gyd ar daith hir o newid o ran dulliau caffael y sector cyhoeddus a gwneud y gorau o gyfleoedd swyddi, ac mae hwn yn gam pwysig arall ar y daith honno.

**Andrew Davies AC,**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.**

**I gael mwy o arweiniad ar y Siarter, cysylltwch â Desg Gymorth Gwerth Cymru:**

**Ffôn:** 01792 313068
**Ffacs:** 01792 313076
**E-bost:** VWPswansea@wales.gsi.gov.uk

# Negeseuon o gefnogaeth

"Mae llywodraeth leol Cymru wedi hen gydnabod y budd cymunedol y gellir ei gael drwy ddefnyddio prosesau caffael yn effeithiol ac ymwneud â busnesau bach a chanolig. Mae datblygiad y siarter hon yn gam arall i'r cyfeiriad cywir, gan adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes yn bodoli mewn sawl ardal, a chyflwyno heriau ar gyfer gwella ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rwy'n cymeradwyo *"Agor Drysau"* fel rhan o'r rhaglen gwella caffael yn y sector cyhoeddus sydd â'r nod nid yn unig o gael gwerth am arian drwy'r pwrs cyhoeddus, ond hefyd bod o fudd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i'n cymunedau. Rwyf hefyd yn argymell ein canllawiau 'Public Spending for Public Benefit', sy'n darparu astudiaethau achos er mwyn dangos sut y gellir gweithredu egwyddorion *"Agor Drysau"* mewn ffordd ymarferol."

**Y Cynghorydd Russell Roberts**
**Llefarydd CLILC, Gwella a Chaffael**

"Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn croesawu'r siarter unigryw hon ac yn falch ein bod wedi cael cyfle i gymryd rhan yn ei chreu. Mae ymwneud â chaffael sector cyhoeddus yn aml yn ddigon i ddigalonni busnesau bach a chanolig, ond gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn helpu i egluro'r broses, ac y bydd yn ganllaw i fusnesau yn ystod y broses gaffael.

Mae'n hanfodol bod gwerth am arian fel y mae'r sector cyhoeddus yn ei geisio yn cael ei gydbwyso â safon y gwasanaeth a'r cynnyrch a gynigir gan fusnesau yng Nghymru, a theimlwn gyda'r siarter hon y bydd yn haws hwyluso hyn."

**Ben Cottam**
**Swyddog Datblygu Polisi Cymru,**
**Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru**

"Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn falch o gymeradwyo'r Siarter hon, ac o fod wedi cyfrannu at ei chreu. Mae caffael sector cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau effeithlonrwydd, tyfu economi Cymru, a sicrhau busnesau cynaliadwy.

Bydd y Siarter hon yn offeryn gwerthfawr i gwmnïau wrth iddynt fynd i'r afael â gweithdrefnau caffael, sy'n aml yn gymhleth, gan roi arweiniad a chymorth clir i fusnesau bach a chanolig. Wrth wneud hynny bydd yn cyfrannu at greu'r amodau sy'n galluogi busnesau i dyfu a ffynnu er lles pawb."

**Emma Watkins**
**Pennaeth Polisi, CBI Cymru**

"Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn croesawu unrhyw ymagwedd sy'n arwain at well gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Gobeithiwn y bydd y Siarter yn sicrhau'r buddiannau hyn drwy annog mwy o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru i geisio gwasanaethu'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a thrwy wneud hynny, gynyddu cystadleuaeth."

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

"Hanfod Gwerth Cymru yw dod â'r sector cyhoeddus yng Nghymru ynghyd a defnyddio ein dylanwad ar y cyd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rwy'n croesawu'r Siarter hon, a fydd yn galluogi BBaCh i chwarae rhan lawn yn y newidiadau cyffrous sy'n digwydd yn y gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru."

**Emma Holiday**
**Prif Weithredwr Dros Dro Gwerth Cymru**





# Cyflwyniad

**Mae dros 100 o fudiadau unigol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cynulliad a'r cyrff y mae'n eu noddi, awdurdodau lleol, addysg bellach ac uwch, y gwasanaeth iechyd gwladol, y gwasanaethau brys ac ati. Ceir manylion y mudiadau sector cyhoeddus yn adran adnoddau Gwefan sell2wales – www.sell2wales.co.uk**

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £4 biliwn bob blwyddyn ar gaffael. Dengys ymchwil bod 35 y cant o'r gwariant hwn yn cael ei ennill gan fusnesau yng Nghymru, a bod hyn yn cefnogi 70,000 o swyddi. Am bob cynnydd o un y cant ar wariant yng Nghymru, gellid creu 2,000 o swyddi.

Mae Asiantaethau Cymorth Busnes yng Nghymru yn bodoli i gynorthwyo busnesau bach a chanolig i addasu er mwyn bodloni gofynion y sector cyhoeddus, ymdopi â newidiadau mewn dulliau caffael ac ennill mwy o fusnes yn y pen draw. Gall busnesau bach a chanolig sydd angen cymorth gysylltu yn y lle cyntaf gyda **Llygad Busnes** ar **08457 969798** neu fynd i **www.llygadbusnes.org.uk** lle cewch wybodaeth gan staff ynglŷn â lle mae dod o hyd i gymorth addas.

Mae caffael yn newid ac mae'n bwysig bod busnesau bach a chanolig o'r sector cyhoeddus yn deall prosesau a disgwyliadau ei gilydd. Mae'r Siarter hon yn anelu at osod arfer da ar gofynnol i'r ddwy ochr.

**DYMA'R PRIF EGWYDDORION Y MAE EIN HYMRWYMIAD I GAFFAEL SY'N GYFEILLGAR I FUSNESAU BACH A CHANOLIG WEDI'U SEILIO ARNYNT**

## YMRWYMIAD Y SECTOR CYHOEDDUS I FUSNESAU BACH A CHANOLIG

**Croesawn y cyfle i wneud busnes gyda busnesau bach a chanolig, a:**

- Byddwn yn ymgynefino â busnesau bach a chanolig yn ein rhanbarth, a'r gwasanaethau a gynigiant.
- Byddwn yn cymryd camau i ddarganfod beth yw'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag gwneud busnes gyda busnesau bach a chanolig addas, ac yn ceisio eu lleihau neu eu dileu.
- Ni fyddwn yn tybio bod cyflenwyr mawr yn cynnig gwell gwerth am arian bob tro.
- Byddwn yn cyhoeddi canllawiau, gan gynnwys dogfennau ar-lein, ac yn cyfarwyddo busnesau bach a chanolig ar ein gofynion, y cyfleoedd sydd ar gael gennym, gyda phwy y dylid cysylltu, a sut i dendro am ein busnes.
- Byddwn yn ei gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig siarad â ni.
- Byddwn yn sicrhau bod ein holl brosesau yn sicrhau chwarae teg i fusnesau bach a chanolig.
- Byddwn yn edrych am ganlyniadau cyffredinol gorau ein gweithgareddau caffael gan ddefnyddio meini prawf gwerth am arian cyffredinol i wneud penderfyniadau.
- Byddwn yn sicrhau cystadleuaeth deg a dilys nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn busnesau bach a chanolig.
- Byddwn yn hysbysebu'n contractau sydd werth dros £25,000 yn ehangach, gan wneud y defnydd gorau o'r Wefan Gaffael Genedlaethol – sell2wales.co.uk.
- Byddwn yn croesawu ceisiadau gan fusnesau newydd.
- Byddwn yn mynd ati i annog ein prif gyflenwyr i roi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig ddarparu elfennau o gontractau addas.
- Byddwn yn croesawu cynigion gan fusnesau bach ar y cyd neu ar sail consortia.

- Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gaffael briodol yn yr UE a'r DU, yn benodol yr egwyddor o beidio camwahaniaethu, ac yn gosod yr un rheolau ar bawb sy'n cynnig tendr mewn dull teg a thryloyw.

### Rydym wedi llwyr ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy ac felly:

- Byddwn yn gweithredu ar ein hymrwymiad i Gaffael Cynaliadwy drwy ymuno â Rhaglen Gaffael Cynaliadwy Gwerth Cymru a thrwy fonitro ein cynnydd yn barhaus.
- Byddwn yn defnyddio meini prawf datblygu cynaliadwy wrth bennu gwerth am arian, gan gynnwys asesu effaith ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- Byddwn yn annog busnesau bach a chanolig hefyd i arddel datblygu cynaliadwy.

### Rydym yn moderneiddio'n prosesau caffael, er mwyn sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn deg i fusnesau bach a chanolig. I'r perwyl hwn:

- Byddwn yn sicrhau bod personél medrus a chymwysedig yn rheoli'r prosesau.
- Byddwn yn cadw'n proses dendro mor syml ag sy'n bosibl er mwyn lleihau costau.
- Byddwn yn edrych ar gost bywyd yn hytrach na chost cychwynnol y cynnyrch / gwasanaeth pan fyddwn yn ystyried gwerth am arian.
- Byddwn yn esbonio'n prosesau caffael i fusnesau bach a chanolig a sut y dylanwadir arnynt gan yr angen i gydymffurfio â chyfraith gaffael yr UE a'r DU.
- Byddwn yn rhoi digon o rybudd i fusnesau bach a chanolig ynghylch newidiadau yn ein prosesau i ganiatáu amser i addasu.
- Byddwn yn lleihau ar y gwaith gweinyddol sydd ei angen i dendro, yn symleiddio'n dogfennau, yn darparu cyfarwyddyd clir sy'n nodi ein gofynion, ac yn defnyddio iaith glir.
- Byddwn yn symud tuag at ymagwedd gyson i Gymru gyfan o ran dogfennaeth gyn-gymhwyso a chontractau safonol.
- Byddwn yn mabwysiadu e-gaffael, gan gynnwys e-ocsiwn, cardiau caffael ac anfonebu electronig, er mwyn gwella effeithlonrwydd.
- Byddwn yn ystyried yr ymagwedd sydd fwyaf addas er mwyn cael gwerth am arian a lleihau risg ar gyfer pob caffaeliad.
- Byddwn yn pecynnu contractau mawr yn elfennau ar wahân neu'n defnyddio lotiau rhanbarthol os bydd hynny'n briodol, er mwyn sicrhau nad yw busnesau bach a chanolig yn cael eu rhwystro rhag tendro.
- Byddwn yn rhoi cyfle i ddarpar gyflenwyr o fusnesau bach a chanolig drafod y caffaeliad, er mwyn iddynt ddeall ein gofynion ac asesu pa mor addas ydynt.
- Byddwn yn rhoi gwybod i fusnesau bach a chanolig pa feini prawf rydym yn eu defnyddio i werthuso ceisiadau i dendro a thendrau.
- Byddwn yn penderfynu beth yw ein gofynion cymhwyso ariannol fesul tendr, ar ôl asesu'r peryglon sydd ynghlwm ag ef.
- Ni fyddwn yn gofyn am gyfrifon archwiliedig mwy na dwy flynedd, a byddwn yn derbyn gwybodaeth amgen gan fusnesau newydd.
- Byddwn yn defnyddio manylebau canlyniadau ac yn ystyried cynnyrch amgen y gall busnesau bach a chanolig fod am eu cynnig.
- Byddwn yn cynnig adborth i ymgeiswyr am dendrau boed hwy'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus, er mwyn cynorthwyo busnesau bach a chanolig i wella.
- Byddwn yn rhoi chwarae teg i fusnesau bach a chanolig, ac yn talu o fewn 30 diwrnod wedi derbyn anfoneb gywir.

### Er mwyn sicrhau bod y broses gaffael yn gwella'n barhaus:

- Byddwn yn mabwysiadu canllawiau ar arfer da ym maes caffael a templed tendro safonol a ddatblygwyd gan Gwerth Cymru.
- Byddwn yn gofyn i fusnesau bach a chanolig ein cynorthwyo, drwy roi adborth ar ein prosesau a'n gweithdrefnau, a chynnig atebion dyfeisgar.
- Byddwn yn cyhoeddi ac yn gweithredu gweithdrefn gwyno a gwella parhaus.

* Mae hwn yn grynodeb o'r arferion y byddwn yn anelu at eu mabwysiadu. Er mwyn diogelu hyblygrwydd ac annog cyfranogiad mor eang ag sy'n bosib ar draws cyrff sector cyhoeddus a busnesau bach a chanolig, mae gofyn i ni ei gwneud yn glir nad yw'r ddogfen hon yn creu, ac na fwriedir iddi greu, unrhyw rwymedigaeth, hawl cyfreitha na pherthynas gyfreithiol gyfrwymol o unrhyw fath boed hynny mewn cyfraith gyhoeddus neu breifat, mewn perthynas ag unrhyw gorff sector cyhoeddus neu fusnes bach a chanolig sy'n cymryd rhan yn y Siarter hon.



DYMA'R PRIF EGWYDDORION Y MAE EICH YMRWYMIAD I GAFFAEL SY'N GYFEILLGAR I FUSNESAU BACH A CHANOLIG WEDI'U SEILIO ARNYNT

# YMRWYMIAD BUSNESAU BACH A CHANOLIG I'R SECTOR CYHOEDDUS

**Er mwyn ein cynorthwyo i'ch helpu chi i wneud busnes â ni, byddwch yn barod i:**

- Gofrestru ar y Wefan Gaffael Genedlaethol – www.sell2wales.co.uk.
- Darparu gwybodaeth bellach y gall fod ei hangen arnom i ddeall eich busnes.
- Cymryd mantais o'r cyfleoedd yr ydym yn eu cynnig i chi gwrdd â ni.
- Sicrhau eich bod yn gwybod beth sy'n ofynnol gennych er mwyn i chi fodloni ein gofynion, ac os nad ydych yn gwybod, byddwch yn ceisio cyngor.
- Cysylltu â sefydliadau sector cyhoeddus i ofyn iddynt eich cynnwys ar eu rhestr berthnasol o gyflenwyr cymeradwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes gennych diddordeb mewn gwaith sydd werth llai na £25,000.
- Mynd ati i chwilio am gyfleoedd tendro, gan gynnwys trwy www.sell2wales.co.uk.
- Bod yn realistig wrth asesu eich gallu i gyflawni pob contract.
- Ymgymryd ag e-gaffael, a dod yn alluog ar y Rhyngrwyd o leiaf, er mwyn sicrhau nad ydych dan anfantais.
- Sicrhau bod eich holl weithgareddau'n digwydd mewn ffordd onest a chyfrifol.
- Gwella cyfraniad eich busnes i ddatblygu cynaliadwy yn barhaus.
- Datblygu a gweithio gyda'ch cadwyni cyflenwi i gynnwys busnesau bach a chanolig eraill.
- Trin eich cyflenwyr yn deg, a thalu o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb gywir.

**Bydd gennych enw da am y canlynol, a byddwch am ddarparu gwasnaeth cystadleuaeth o safon drwy:**

- Ddiweddaru sgiliau staff a medr eich busnes yn barhaus, gan geisio cymorth Asiantaethau Cymorth Busnes, os yw hynny'n briodol.
- Ystyried cydweithio â chyflenwyr eraill, os yw hynny'n gwneud eich gwasanaeth yn fwy cystadleuol neu'n lleihau risg.


## Cydnabyddiaeth

**Mae'n bleser gan Gwerth Cymru gydnabod ei bod wedi defnyddio cyhoeddiadau eraill a restrir isod er mwyn ychwanegu at ei hymchwil, wrth gynhyrchu'r Siarter hon.**

- Small Business Friendly Concordat – Good Practice Guide (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog).
- Smaller Supplier….. better value? (Swyddfa Masnach y Llywodraeth).
- The Government Procurement Code of Good Practice (Swyddfa Masnach y Llywodraeth).
- Public Procurement – removing the barriers to SMEs (Adran Cyllid a Phersonél, Gogledd Iwerddon).
- An Action Plan – Small Businesses and Public Procurement (Ffederasiwn Busnesau Bach).
- Local Government Procurement, Economic Development – An Action Guide (Cymdeithas y Prif Swyddogion Datblygu Economaidd).
- Government Supporter and Customer? Mai 2003 – y Tasglu Rheoleiddio Gwell.
- Public Spending for Public Benefit, Gorffennaf 2005 – Y New Economics Foundation a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bydd y dogfennau uchod, ynghyd â'r dogfennau gan Gwerth Cymru a restrir isod, yn rhoi mwy o ganllawiau defnyddiol a manwl i brynwyr a chyflenwyr.

- 'Buying Into SD' a 'Buy Now Don't Pay Later' – canllawiau ar gaffael cynaliadwy – Gwerth Cymru.
- 'Food for Thought' – canllawiau ac astudiaethau achos – Gwerth Cymru.